



Egwyddorion arweinyddiaeth iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru

YMATEB GAN CGGC

1. Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru (CGGC) yw'r mudiad aelodaeth cenedlaethol ar gyfer y sector gwirfoddol yng Nghymru. Ein bwriad yw galluogi mudiadau gwirfoddol i wneud mwy o wahaniaeth gyda'i gilydd.
2. Rydym yn falch o gael y cyfle i ymateb i ymgynghoriad Gofal Cymdeithasol Cymru ac Arolygiaeth Addysg Gofal Iechyd Cymru ar egwyddorion arweinyddiaeth ym maes iechyd a gofal cymdeithasol.

A YW'R EGWYDDORION A'R CWMPAS YN TYNNU SYLW AT Y PETHAU CYWIR?

3. Mae'r egwyddorion yn gadarn ac, er ein bod wedi awgrymu rhai ychwanegiadau, sydd wedi'u hamlygu yn y PwerBwynt a atodwyd, byddem yn eu cymeradwyo. Gallai'r sector gwirfoddol feithrin ac ymwreiddio'r egwyddorion hynny'n weithredol, ac o safbwynt llywodraethu, fel rhan o'i rôl mewn arweinyddiaeth dosturiol a chyfunol ar draws iechyd, gofal cymdeithasol, a systemau llesiant.
4. Fodd bynnag, mae *Cymru Iachach* yn galw am integreiddio ar draws iechyd a gofal cymdeithasol ac os bu byth amser iawn i wneud hynny, dyma'r amser. Dylai

arweinyddiaeth dosturiol fod yn rhan annatod o integreiddio, gyda'r sector gwirfoddol yn bartner hanfodol. Yn ystod argyfwng Covid-19 rydym wedi sefydlu, ar draws yr holl sector, agwedd 'gallwn wneud' gryfach gan wneud penderfyniadau cyflym, ond wedi'u hystyried, gan ddefnyddio ymgysylltiad, ymglymiad a gwydnwch cymunedol. Gwelwn berthynas â strategaeth Cysylltu Cymunedau Llywodraeth Cymru, lle mae llwyddiant yn golygu ffocysu ar y dinesydd a sefydlu mecanweithiau ar gyfer sgysiau ynglŷn â'r hyn sy'n gweithio a'r hyn na fydd yn gweithio, o bosibl.

5. Amlinellodd *Caring to Change* West et al (2017), ac, yn rhannol, cwmpas y pedwar math o ymddygiad (Atkin a Parker, 2012), bwysigrwydd rhyngweithio rhwng pobl. Eto, nid ydynt yn llwyddo i wneud y cysylltiad â phwysigrwydd dull cydgynhyrchiol o weithredu, fel sydd wedi'i ymgorffori o fewn Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 a *Cymru Iachach*. Mae CGGC o'r farn ei bod yn hanfodol i arweinwyr gofleidio'r syniad o gydgynhyrchu.
6. Mae'n dda gweld bod West et al (2017), yn nhermau arweinyddiaeth gyfunol, yn cydnabod na ddylai arweinyddiaeth gyfunol a thosturiol ddigwydd 'o safbwynt hierarchaidd' yn unig a'i fod yn cwmpasu'r unigolyn a'r system lefel. Fodd bynnag, mae perygl y gallai dull hierarchaidd gael ei defnyddio os nad yw pobl (defnyddwyr gwasanaeth a gofaluwr) wedi'u cynnwys o'r dechrau, a gallem golli'r dull person-ganolog y brwydrwyd amdano ar hyd y blynyddoedd. Yn wir, ymddengys bod Tabl 1 yn amlinellu dull hierarchaidd o weithredu arweinyddiaeth dosturiol a'i ymdriniaethau, er ei bod yn bosibl iawn mai sgil-gynnyrch o gynllun y dudalen yw hyn yn unig.
7. Mae gwrando yn hanfodol i bedwar ymddygiad arweinyddiaeth dosturiol (gweler y PwerBwynt, wedi'i amlygu mewn testun coch), ac rydym yn awgrymu cynnwys y canlynol hefyd:
 - Mynychu: 'a chynnal trafodaethau meddylgar'.
 - Helpu: 'trwy wrando ar yr hyn sy'n gweithio a'r hyn nad yw'n gweithio'.
 - Empathi: 'trwy fod yn garedig a thrwy wrando'n weithredol, ymateb a chael mwy o gytundeb â staff'.

OES UNRHYW BETH AR GOLL Y BYDDECH WEDI GOBEITHIO'I WELD?

8. Carem weld:
 - Egwyddorion cydgynhyrchu'n cael eu gwau i'r ddogfennaeth.

- Mwy o eglurder ynglŷn â'r modd y caiff arweinyddiaeth dosturiol ei mesur. Os bydd fframwaith ar gael, yna un opsiwn fyddai defnyddio methodoleg ansoddol Mesur y Mynydd. Fodd bynnag, ni fydd yn hawdd mesur cysyniad mor aneglur.
- Gallai'r sail dystiolaeth ar gyfer diwylliannau arweinyddiaeth dosturiol fod yn gamarweiniol. A yw'r canlyniadau'n ganlyniad i arweinyddiaeth dosturiol, neu'n gyfuniad o ffactorau eraill a fyddai'n golygu defnyddio methodoleg er mwyn gwahanu ymyriadau cymhleth?
- Mwy o eglurder ynglŷn â'r rôl y bydd gweithio digidol yn ei chwarae mewn arweinyddiaeth dosturiol.

A FYDDECH CHI'N HAPUS I GYMERADWYO'R EGWYDDORION HYN AR RAN EICH MUDIADAU FEL BOB MODD I NI ADEILADU'R MANDAD AR GYFER GWEITHREDU?

9. Byddem yn hapus i gymeradwyo'r egwyddorion ar ran CGGC a gwelwn y sector gwirfoddol fel partneriaid allweddol er mwyn cefnogi eu gweithrediad.
10. Byddem yn falch o drafod y pwyntiau hyn ymhellach gyda Gofal Cymdeithasol Cymru os oes angen.

Sally Rees,

Hwylusydd Iechyd a Gofal Cymdeithasol Cenedlaethol y Trydydd Sector,

CGGC

Medi 2020